

**CYNGOR CYMUNED  
LLANFIHANGEL-AR-ARTH  
COMMUNITY COUNCIL**

**HYSBYSIAD  
PREIFATRWYDD CYFFREDINOL**

Mabwysiadwyd /  
Adopted:  
21.03.2022

## CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL-AR-ARTH

### HYSBYSIAD PREIFATRWYDD CYFFREDINOL

(i'w ddefnyddio ar gyfer trigolion ac aelodau'r cyhoedd –  
ond nid ar gyfer staff, cynghorwyr neu unrhyw un sydd â rhan yn y cyngor lleol)

#### Eich data personol – beth ydy e'?

"Data personol" yw unrhyw wybodaeth am unigolyn byw sy'n caniatáu iddynt gael eu hadnabod o'r data hwnnw (er enghraifft, enw, ffotograffau, fideos, cyfeiriad e-bost neu gyfeiriad). Gall adnabod fod yn uniongyrchol drwy ddefnyddio'r data ei hun, neu drwy ei gyfuno â gwybodaeth arall fel y gallwn adnabod unigolyn byw. Mae prosesu data personol, yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â data personol, sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig. Mae hefyd yn cynnwys y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (y "RGDC") a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â data personol a hawliau fel y Ddeddf Hawliau Dynol.

#### Pwy ydyn ni?

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yma wedi ei ddarparu gan Gyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth (Y Cyngor) sydd yn rheolwr data.

#### Mae'r Cyngor yn gweithio gyda rheolwyr data eraill sydd yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol Eraill sydd yn cynnwys y Cyngor Sir a Chynghorau Cymuned a Thref
- Mudiadau a grwpiau cymdeithasol
- Elusennau
- Sefydliadau eraill sydd yn sefydliadau di-elw
- Contractwyr
- Asiantaethau cyfeirio credyd

Efallai y bydd angen i ni rannu eich data personol sydd gennym gyda hwy, er mwyn iddynt allu cyflawni eu cyfrifoldebau i'r cyngor. Os ydym ni a'r rheolwyr data eraill a restrir uchod, yn prosesu eich data ar y cyd, ar gyfer yr un dibenion, yna gall y cyngor a'r rheolwyr data eraill fod yn "reolwyr data ar y cyd." Mae hyn yn golygu ein bod i gyd yn gyfrifol i chi am eich data. Pan fo pob un o'r partion a restrir uchod yn prosesu eich data at ddibenion annibynnol eu hunain, bydd pob un ohonom yn gyfrifol ar wahân ac yn annibynnol i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiynnau, am ymarfer unrhyw un o'ch hawliau (gweler isod) neu os ydych am godi cwyn, dylech wneud hynny'n uniongyrchol i'r rheolwr data perthnasol.

Mae disgrifiad o'r data personol y mae'r cyngor yn ei brosesu ac at pa ddibenion wedi'i nodi yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

#### Bydd y cyngor yn prosesu rhai neu'r cyfan o'r data personol canlynol lle bo angen er mwyn cyflawni ei dasgau:

- Enwau, teitlau, ac unrhyw enw arall ble gellir eich adnabod, ffotograffau;
- Manylion cyswllt megis rhifau ffôn, cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost;
- Lle mae'n nhw'n berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir gan gyngor, neu lle rydych chi'n eu darparu i ni, gallwn brosesu gwybodaeth fel rhyw, oedran, statws priodasol, cenedligrwydd, addysg / hanes gwaith, cymwysterau academaidd / proffesiynol, hobïau, cyfansoddiad teulu, a dibynyddion;
- Ble rydych chi'n talu am weithgareddau megis defnyddio eiddo'r cyngor, dynodwyr ariannol megis rhifau cyfrif banc, rhifau cerdyn talu, dynodwyr talu / trafodion, rhifau polisi, a rhifau hawlio;

- Bydd data rydym yn ei brosesu yn cynnwys categorïau personol neu sensitif eraill. Bydd hyn yn cynnwys megis euogfarnau troseddol, tarddiad hiliol neu ethnig, iechyd meddwl a chorfforol, manylion anafiadau, meddyginiaeth / triniaeth a dderbyniwyd, credoau gwleidyddol, cysylltiad undeb llafur, data genetig, data biometrig, data yn ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd.

### **Sut rydym yn defnyddio data personol sensitif?**

- Gallwn brosesu data personol sensitif gan gynnwys, fel y bo'n briodol:
  - gwybodaeth am eich iechyd neu'ch cyflwr corfforol neu feddyliol er mwyn monitro absenoldeb salwch a gwneud penderfyniadau ar eich ffitrwydd ar gyfer gwaith;
  - eich tarddiad hiliol neu ethnig neu wybodaeth grefyddol neu debyg er mwyn monitro cydymffurfio â deddfwriaeth cyfle cyfartal;
  - er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau i drydydd parti.
- Disgrifir y mathau hyn o ddata yn y RGDC fel "Categorïau Data Arbennig" ac mae angen lefelau amddiffyn uwch. Mae angen i ni gael cyfiawnhad pellach dros gasglu, storio a defnyddio'r math hwn o ddata personol.
- Gallwn brosesu categorïau arbennig o ddata personol yn yr amgylchiadau canlynol:
  - mewn amgylchiadau cyfyngedig, gyda'ch caniatâd ysgrifenedig penodol;
  - lle mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol;
  - lle mae ei angen er lles y cyhoedd.
- Yn llai cyffredin, lle mae ei angen o ran hawliau cyfreithiol neu lle mae ei angen er mwyn amddiffyn eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall), ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle mae'r wybodaeth eisoes yn gyhoeddus.

### **A oes angen eich caniatâd i brosesu eich data personol sensitif?**

- Mewn amgylchiadau cyfyngedig, efallai byddwn yn cysylltu â chi i gael eich caniatâd ysgrifenedig er mwyn i ni brosesu data personol penodol. Os gwnawn hynny, byddwn yn darparu manylion llawn y data personol sydd ei angen arnom ynghyd â'r rheswm bod ei angen, er mwyn i chi ystyried yn ofalus os ydych yn dymuno cydsynio.

### **Bydd y cyngor yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Mae hyn yn dweud bod yn rhaid i'r data personol rydym yn ei gadw amdanoch:**

- Gael ei ddefnyddio'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw.
- Gael ei gasglu at ddibenion dilys yn unig rydym wedi ei egluro yn glir i chi ac na chaiff ei ddefnyddio mewn unrhyw fodd sydd yn anghydnaws â'r dibenion hynny.
- Fod yn berthnasol i'r dibenion rydym wedi dweud wrthy ch ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny'n unig.
- Fod yn gywir ac wedi ei ddiweddarau.
- Gael ei gadw ond am gyhyd ag y bo angen i'r dibenion rydym wedi dweud wrthy ch.
- Gael ei gadw a'i ddinistrio'n ddiogel gan gynnwys sicrhau bod mesurau technolegol a diogelwch yn eu lle i ddiogelu eich data personol rhag colled, camddefnydd, mynediad heb awdurdod a datgeliad.

## **Defnyddiwn eich data personol ar gyfer rhai neu bob un o'r dibenion canlynol:**

- Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys deall eich anghenion i ddarparu'r gwasanaethau yr ydych yn gofyn amdanynt ac i ddeall yr hyn y gallwn ei wneud i chi a rhoi gwybod i chi am wasanaethau perthnasol eraill;
- Cadarnhau eich hunaniaeth i ddarparu rhai gwasanaethau;
- I gysylltu â chi drwy'r post, e-bost, ffonio neu ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter, WhatsApp);
- I'n helpu ni i greu darlun o'r modd yr ydym yn perfformio;
- Atal a chanfod twyll a llygredd yn y defnydd o arian cyhoeddus a lle bo angen ar gyfer swyddogaethau gorfodi'r gyfraith;
- Ein galluogi i fodloni'r holl rwymedigaethau a phŵerau cyfreithiol a statudol gan gynnwys unrhyw swyddogaethau dirprwyedig;
- Cynnal gweithdrefnau diogelu cynhwysfawr (gan gynnwys diwydrwydd dyladwy a thrin cwynion) yn unol â'r arfer diogelu gyda'r nod o sicrhau bod yr holl blant a phobl sydd mewn perygl yn cael amgylcheddau diogel ac yn ôl yr angen er mwyn diogelu unigolion o niwed neu anaf;
- Hyrwyddo buddiannau'r cyngor;
- Cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain;
- Gofyn am eich barn, opiniwn neu sylwadau;
- I roi gwybod i chi am newidiadau i'n cyfleusterau, gwasanaethau, digwyddiadau, cynghorwyr a deiliaid rôl eraill;
- I anfon cyfathrebiadau yr ydych wedi gofyn amdanynt ac efallai y bydd o ddiddordeb i chi. Gall y rhain gynnwys gwybodaeth am ymgyrchoedd, apeliadau, prosiectau neu fentrau newydd eraill;
- Prosesu trafodion ariannol perthnasol gan gynnwys grantiau a thaliadau am nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r cyngor;
- I ganiatáu dadansoddiad ystadegol o ddata fel y gallwn gynllunio darpariaeth gwasanaethau.

Gall ein prosesu hefyd gynnwys defnyddio systemau Teledu Cylch Cyfyng ar gyfer atal ac erlyn trosedd.

## **Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?**

Mae'r cyngor yn awdurdod cyhoeddus ac mae ganddo bŵerau a rhwymedigaethau penodol. Mae'r rhan fwyaf o'ch data personol yn cael ei brosesu ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol sy'n cynnwys cyflawni swyddogaethau a phŵerau statudol y cyngor. Weithiau, wrth arfer y pŵerau neu'r dyletswyddau hyn, mae angen prosesu data personol trigolion neu bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r cyngor. Byddwn bob amser yn ystyried eich diddordebau a'ch hawliau. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn nodi'ch hawliau a'ch rhwymedigaethau i'r cyngor.

Efallai y byddwn yn prosesu data personol os yw'n angenrheidiol i berfformio contract gyda chi, neu i gymryd camau i ymrwymo i gontract. Enghraifft o hyn fyddai prosesu eich data mewn cysylltiad â defnyddio cyfleusterau meysydd chwarae, neu lenwi bin halen.

Weithiau bydd angen eich caniatád i ddefnyddio'ch data personol. Lle mae hyn yn ofynnol, byddwn yn gofyn am eich caniatád at y defnydd hwnnw.

## **Rhannu eich data personol**

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth am y trydydd parti y gall y cyngor rannu eich data personol gyda hwy. Mae gan y trydydd parti hyn rwymedigaeth i roi mesurau diogelwch priodol ar waith a byddant yn gyfrifol i chi yn uniongyrchol am y modd y maent yn prosesu ac yn diogelu eich data

personol. Mae'n debygol y bydd angen i ni rannu eich data gyda rhai neu'r cyfan o'r canlynol (ond dim ond lle bo angen):

- Y rheolwyr data a restrir uchod o dan y pennawd "Rheolwyr data eraill y mae'r cyngor yn gweithio gyda nhw";
- Ein hasiantau, ein cyflenwir a'n contractwyr. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn i ddarparwr masnachol gyhoeddi neu ddsbarthu cylchlythyrau ar ein rhan, neu i gynnal ein meddalwedd cronfa ddata;
- Ar adegau, mae awdurdodau lleol eraill neu gyrff nad ydynt yn gwneud elw gyda'n gilydd yn cynnal mentrau ar y cyd, e.e. mewn perthynas â chyfleusterau neu ddigwyddiadau i'r gymuned.

## **Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol?**

Byddwn yn cadw rhai cofnodion yn barhaol os oes angen i ni wneud hynny yn gyfreithiol. Efallai y byddwn yn cadw rhai cofnodion eraill am gyfnod estynedig. Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae'n arfer da i gadw cofnodion ariannol am o leiaf 8 mlynedd i gefnogi archwiliadau Tollau Ei Mawrhydi neu ddarparu gwybodaeth dreth. Efallai bod gennym ni rwymedigaethau cyfreithiol i gadw rhwyfaint o ddata mewn cysylltiad â'n rhwymedigaethau statudol fel awdurdod cyhoeddus. Caniateir i'r cyngor gadw data er mwyn amddiffyn neu ddilyn hawliadau. Mewn rhai achosion, mae'r gyfraith yn gosod terfyn amser ar gyfer hawliadau o'r fath (er enghraifft 3 mlynedd am hawliadau anaf personol neu 6 mlynedd ar gyfer hawliadau contract). Byddwn yn cadw rhywfaint o ddata personol at y diben hwn cyn belled ag y credwn ei bod yn angenrheidiol i amddiffyn neu ddilyn hawliad. Yn gyffredinol, byddwn yn ymdrechu i gadw data yn unig gyhyd ag y bydd arnom ei angen. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ei ddileu pan nad oes ei angen.

## **Eich hawliau a'ch data personol**

Mae gennych yr hawliau canlynol ynglyn â'ch data personol:

Wrth arfer unrhyw un o'r hawliau a restrir uchod, er mwyn prosesu'ch cais, efallai y bydd angen i ni i wirio'ch hunaniaeth ar gyfer eich diogelwch. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i chi ymateb gyda phrawf o'ch hunaniaeth cyn y gallwch chi ymarfer yr hawliau hyn.

### **1) Yr hawl i gael gafael ar ddata personol sydd gennym amdanoch chi**

- Ar unhryw adeg, gallwch gysylltu â ni i ofyn am y data personol sydd gennym amdanoch chi yn ogystal â pham fod gennym y data personol hwnnw, pwy sydd â mynediad at y data personol ac o ble y cawsom y data personol. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn ymateb o fewn mis.
- Nid oes unrhyw ffioedd na thaliadau am y cais cyntaf ond efallai y bydd ceisiadau ychwanegol am yr un data personol neu geisiadau sy'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol yn amodol ar ffi weinyddol.

### **2) Yr hawl i gywiro a diweddarw'r data personol sydd gennym arnoch chi**

- Os yw'r data a ddaliwn arnoch yn hen, yn anghyflawn neu'n anghywir, gallwch chi roi gwybod i ni a bydd eich data yn cael ei ddiweddarw.

### **3) Yr hawl i gael ei data personol wedi ei ddileu**

- Os ydych yn teimlo na ddylwn fod yn defnyddio eich data personol mwyach a'n bod yn anghyfreithlon yn ei ddefnyddio, gallwch ofyn i ni ddileu'r data personol sydd gennym.
- Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn cadarnhau a yw'r data personol wedi ei ddileu neu'r rheswm pam na ellir ei ddileu (er enghraifft oherwydd bod ei angen arnom i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol).

- 4) **Yr hawl i wrthwynebu i brosesu eich data personol neu ei gyfyngu i ddibenion penodol yn unig**
  - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol neu ofyn i ni gyfyngu ar brosesu. Ar ôl derbyn y cais, byddwn yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi a allwn gydymffurfio neu os oes rhwymedigaeth gyfreithiol gennym i barhau i brosesu eich data.
- 5) **Yr hawl i gludo data**
  - Mae gennych yr hawl i ofyn i ni drosglwyddo peth o'ch data i reolwr arall. Byddwn yn cydymffurfio â'ch cais, lle mae'n ymarferol gwneud hynny, o fewn mis i dderbyn eich cais.
- 6) **Yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl i brosesu eich data ar unrhyw adeg ar gyfer unrhyw brosesau data cafodd ganiatâd**
  - Gallwch dynnu'ch caniatâd yn ôl yn hawdd dros y ffôn, e-bost, neu drwy'r post (gweler Manylion Cyswllt isod).
- 7) **Yr hawl i gyflwyno cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
  - Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 0303 123 1113 neu drwy e-bost <https://ico.org.uk/global/contact-us/email/> neu yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Tŷ Wycliffe, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer SK9 5AF.

## **Trosglwyddo Data Dramor**

Bydd unrhyw ddata personol a drosglwyddir i wledydd, neu diriogaethau y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn cael ei roi ar systemau sy'n cydymffurfio â hawliau personol. Bydd hyn yn gyfwrth naill ai trwy gytundebau rhyngwladol neu gontractau a gymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwefan hefyd yn hygyrch o dramor, ac ar adegau mae'n bosibl y bydd rhywfaint o wybodaeth personol (er enghraifft newyddlen) lle gellir ei lawrlwytho o dramor.

## **Prosesu Pellach**

Os ydym am ddefnyddio eich data personol at ddiben newydd, sydd heb ei gynnwys yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, byddwn yn rhoi hysbysiad newydd i chi. Byddwn yn egluro'r defnydd newydd hwn cyn dechrau'r broses ac yn nodi'r dibenion perthnasol a'r amodau prosesu. Lle bynnag y bo angen, byddwn yn ceisio'ch caniatâd ymlaen llaw i'r prosesu newydd.

## **Newidiadau i'r hysbysiad hwn**

Byddwn yn cadw'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn dan adolygiad rheolaidd a byddwn yn rhoi unrhyw ddiweddiadau ar wefan y Cyngor. Diweddarwyd yr Hysbysiad hwn ym Mis Chwefror 2018.

## **Manylion Cyswllt**

Mae croeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn neu'r data personol sydd gennym amdanoch chi neu i ymarfer eich holl hawliau, ymholiadau neu gwynion perthnasol drwy anfon neges e-bost at:

[cyngorcymunedllanfihangelarth@outlook.com](mailto:cyngorcymunedllanfihangelarth@outlook.com)

---